

Ymgynghoriad: Deilliannau Rheoleiddio a Mapio Amodau

A yw nodau Cymwysterau Cymru ar gyfer cyflwyno deilliannau rheoleiddio yn glir?

Ydyn

Nac ydyn

Os nac ydyn, rhowch fanylion pellach:

A yw'r deilliannau rheoleiddio arfaethedig yn cyflawni'r nodau hynny?

Ydyn

Nac ydyn

Os nac ydyn, rhowch fanylion pellach:

Yn eich barn chi a yw'r deilliannau rheoleiddio arfaethedig yn glir ac yn hawdd i'w deall?

Ydyn, maent i gyd yn glir ac yn hawdd i'w deall

Mae rhai, ond nid pob un, yn glir ac yn hawdd i'w deall

Nac ydyn, nid ydynt yn glir nac yn hawdd i'w deall

Rhowch y rhesymau dros eich ymateb. Os byddwch o'r farn nad yw rhai neu nad yw pob un yn glir neu'n hawdd i'w deall, nodwch pa rai, ac awgrymwch sut y gellid datblygu'r rhain.

Mae'r rhan fwyaf o'r deilliannau arfaethedig yn glir iawn eu bwriad a'u mynegiant.

Yr unig un sy'n ymddangos yn llai amlwg ei ystyr yw Deilliant 7. Bu'n rhaid cyfeirio ar yr Amodau a fapiwyd i'r deilliant hwn er mwyn ceisio deall ei fwriad. Efallai bod y ffaith fod cymaint o Amodau wedi'i fapio i'r deilliant hwn yn awgrymu ei fod yn ceisio cwmpasu gormod o elfennau nad ydynt o reidrwydd yn gydnaws â'i gilydd dan un pennawd.

A ydych yn cytuno bod y deilliannau rheoleiddio arfaethedig yn adlewyrchu'r nodau a rennir gan Cymwysterau Cymru a Chyrff Dyfarnu?

Ydw

Nac ydw

Os nad ydych, nodwch pa ddeilliannau rheoleiddio, a'ch rhesymau pam:

A ydych yn cytuno bod deilliant 1 yn un cynhwysfawr, a bod pob deilliant rheoleiddio arall yn ymwneud ag ef?

Ydw

Nac ydw

Os nad ydych, rhowch fanylion pellach:

Yn eich barn chi a oes unrhyw ddeilliannau rheoleiddio ychwanegol y dylid eu cynnwys?

Oes

Nac oes

Os Oes, nodwch y deilliannau y dylid eu cynnwys a'ch rhesymau pam:

Efallai y dylid rhoi ystyriaeth i dorri Deilliant 7 i rannau llai? Mae'n gynhwysfawr iawn ar hyn o bryd.

Yn eich barn chi a oes unrhyw ddeilliannau rheoleiddio arfaethedig y dylid eu hepgor?

Oes

Nac oes

Os Oes, nodwch y deilliannau y dylid eu hepgor a'ch rhesymau pam:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i fapio Amodau i'r deilliannau rheoleiddio?

Ydw

Nac ydw

Os nad ydych, nodwch pa Amodau y dylid eu mapio'n wahanol, ac i ba ddeiliant rheoleiddio:

Yn gyffredinol, deallwn y bwriad o fapio'r Amodau yn erbyn y Deilliannau Rheoleiddio arfaethedig, ac rydym yn cytuno'r â'r rhesymeg dros wneud hynny. Gall ehangu ar y ddealltwriaeth o gynnwys manylach y deilliannau, ac mi allai helpu i fesur cyflawniad, os dewisir gwneud hynny, yn y dyfodol.

Mae gennym un sylw cyffredinol i'w wneud, a nifer o sylwadau mwy penodol.

Mae'r Amodau, gan fwyaf, wedi'u hanelu at y cyrff dyfarnu. Amodau Cydnabod Safonol yw eu teitl llawn, ac fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, maent yn gosod meini prawf ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu. Mae mapio'r Amodau yn erbyn y deilliannau, felly, yn gwneud synnwyr perffaith o ran yr elfennau (niferus) hynny o'r broses sy'n gyfrifoldeb neu'n gydgyfrifoldeb ar y cyrff dyfarnu.

Fodd bynnag, yr hyn na all y broses fapio'i gyflawni yw dyrannu'r materion hynny sy'n brif gyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru ei hun, neu'n gyfrifoldeb ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru (er enghraifft). Yr un amlycaf ohonynt yn y categori hwn yw Deiliant 2, ac mae Deiliant 8 yn yr un sefyllfa, i raddau.

O ran materion mwy manwl:

- *sylwn fod E7 ac I14 ill dau yn ymddangos dwywaith*
- *tybed a fyddai A5 yn perthyn yn well i ddeiliant 6?*
- *tybed a fyddai C1, C2, C3, E7 (sy'n ymddangos yn neilliannau 7 ac 8 ar hyn o bryd) a G5 yn perthyn yn well i ddeiliant 7?*
- *tybed a fyddai B3, E5, I4 (mae I4 yn ymddangos yn neilliannau 6 a 7 ar hyn o bryd) yn perthyn yn well i ddeiliant 7 neu 8?*

A dyma rai materion gyda golwg ar yr adolygiad o'r Amodau nes ymlaen eleni:

- *yn yr Amodau Cydnabod Safonol, mae gwall yn y fersiwn Gymraeg yn A1..2 (d), ble defnyddir y gair 'drethdalwr' yn hytrach na 'fethdalwr'*
- *cymerwn y bydd angen cadw A2 dan adolygiad yn sgil y broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd*
- *hoffai UCAC weld geiriad sy'n sicrhau y bydd adnoddau priodol yn eu lle cyn y gellir cymeradwyo/gweithredu manyleb newydd; o fynd gam ymhellach hoffem weld ymrwymiad yn yr amodau i gyhoeddi adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw sector/athrawon/dysgwyr dan anfantais*

Y Gymraeg

A fyddai gan y deilliannau rheoleiddio arfaethedig unrhyw oblygiadau (bwriadol neu anfwriadol) o ran y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

(b) trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Byddai

Na fyddai

Os byddai, rhowch fanylion pellach:

Mae geiriad y deilliannau'n eang iawn ac felly mae'n anodd barnu'r effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r driniaeth ohoni. Yn sicr, mi ellid dadlau eu bod yn rhoi platfform ar gyfer sicrhau triniaeth gyfartal (yn enwedig Deilliant 3), ond mae'r cwbl yn dibynnu ar ddehongliad. Ym marn UCAC, mae geiriad yr Amodau'n fwy tyngedfennol gan eu bod yn fwy manwl a phenodol.